Trwydded Darllen yn Uchel y CLA
Telerau ac Amodau

Cyflwyniad

Mae'r Drwydded hon yn cofnodi'r telerau y mae'r CLA yn eu gosod wrth roi trwydded i Sefydliadau Addysgol yn y Deyrnas Unedig atgynhyrchu a gwneud recordiadau fideo o lyfrau yn cael eu darllen yn uchel at ddibenion addysgol.

1. Diffiniadau

1.1 Yn y Drwydded hon, mae gan y termau isod yr ystyron canlynol:

Gwaith Artistig:
graffeg, delweddau, gwaith celf, dyluniadau, ffotograffau neu weithiau gweledol neu artistig eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Deunydd Trwyddedig;

Personau Awdurdodedig:
staff addysgu a staff eraill (boed dros dro neu'n barhaol) y Trwyddedai;

CLA:
yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf.;

Gwefan y CLA:
www.cla.co.uk neu unrhyw wefan arall y gellir hysbysu'r Trwyddedai amdani. Bydd cyfeiriad at wybodaeth ar wefan y CLA, neu wybodaeth a gyrchir trwyddi, neu trwy ddulliau electronig eraill a reolir gan y CLA yn cynnwys:

i) unrhyw wybodaeth o'r fath y dywedir ei bod yn cael ei chymhwyso'n gyffredinol i bob trwydded CLA ac unrhyw wybodaeth y nodir ei bod yn berthnasol yn benodol i Drwydded Darllen yn Uchel y CLA, a dylai'r Trwyddedai gymhwyso'r wybodaeth a ddarperir at y diben perthnasol yn unol â hynny;

ii) gwybodaeth gaiff ei diwygio o bryd i'w gilydd gan y CLA, gydag unrhyw ddiwygiad o'r fath yn dod i rym ar y Dydd Chwarter nesaf ar ôl i ddiwygiad o'r fath gael ei hysbysu gyntaf;

Ffurflen Hawlio:
ffurflen a ffeiliwyd mewn llys sy'n cychwyn unrhyw broses mewn unrhyw achos cyfreithiol neu achos sy'n codi o'r Drwydded hon neu mewn cysylltiad â'r Drwydded hon neu ei chynnwys neu ei ffurfiad;

Dyddiad Cychwyn:
y dyddiad a hysbyswyd gan y CLA i'r Trwyddedai, fel arfer ar ddechrau Blwyddyn Drwydded;

Rhybudd Hawlfraint:
datganiad ar y ffurf ganlynol, neu'n sylweddol debyg: "Mae'r recordiad NEU'R ffrydiad byw hwn wedi'i ddarparu o dan Drwydded y CLA gyda thelerau defnydd penodol. Mae'r cynnwys yn y recordiad NEU'R ffrydiad byw hwn yn cael ei ddiogelu gan hawlfraint ac, ac eithrio fel y caniateir gan y gyfraith, ni ellir ei gopïo, ei storio, ei gopïo'n electronig na'i rannu fel arall ymhellach, hyd yn oed at ddibenion mewnol, heb ganiatâd pellach ymlaen llaw gan y Deiliad Hawliau.";

Ffurf wedi'i Dramateiddio:
darllen Deunydd Trwyddedig yn uchel ar ffurf ddramatig neu ffurf wedi'i dramateiddio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r defnydd o sawl darllenwr, actio stori, ac ychwanegu cerddoriaeth neu sain (ac eithrio i'r graddau bod cerddoriaeth neu sain o'r fath yn rhan o'r Gwaith Trwyddedig gwreiddiol). Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw Ffurf wedi'i Dramateiddio yn cynnwys darllen y Deunydd Trwyddedig yn uchel trwy ddehongliad laith Arwyddion Prydain ar gyfer Defnyddwyr byddar;

Sefydliadau Addysgol
Ysgolion (gan gynnwys academïau ac ysgolion rhydd), colegau, canolfannau cyfeirio disgyblion, canolfannau adnoddau a sefydliadau addysgol eraill yn y Deyrnas Unedig, ac eithrio sefydliadau addysg uwch;

Deunydd wedi'i Eithrio:
y categorïau hynny o waith a gweithiau unigol a nodwyd yn y rhestr o Gategorïau a Gweithiau wedi'u Heithrio fel y dangosir ar wefan y CLA neu ddulliau electronig eraill a reolir gan y CLA ac y gall y CLA eu diwygio o bryd i'w gilydd;

The Copyright Licensing Agency Ltd

Ffôn 020 7400 3100
Ebost cla@cla.co.uk
www.cla.co.uk

CLA Scotland
Ffôn 0131 272 2711
Ebost clascotland@cla.co.uk

Cofrestrwyd yn Lloegr
Rhif cofrestru 1690026

Cyfanswm Myfyrwyr CALI:
cyfanswm nifer myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn (i gynnwys yr holl fyfyrwyr llawn amser a rhan-amser) y Trwyddedai fel y'i hysbyswyd i'r CLA naill ai gan y ffynhonnell ddata gynrychioliadol fel y'i nodwyd ar wefan y CLA, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, y Gwasanaeth Data, Cyngor Cyllido'r Alban, yr Adran Addysg neu, os nad oes corff cynrychioliadol yn bodoli sy'n darparu'r wybodaeth hon, gan y Trwyddedai ei hun wedi'i gyfrifo mewn cytundeb â'r CLA;

Trwydded:
y drwydded a roddir yn unol â thelerau ac amodau'r cytundeb hwn;

Ffi'r Drwydded:
y ffi i'w thalu mewn perthynas â'r Drwydded bob blwyddyn fel y bydd y CLA yn hysbysu'n ysgrifenedig i'r Trwyddedai;

Cyfnod y Drwydded:
mewn perthynas â phob Recordiad, pedwar diwrnod calendr ar ddeg o'r dyddiad y cafodd y Recordiad ei lwytho i'r Rhwydwaith Diogel, gan gynnwys y dyddiad hwnnw;

Deunydd Trwyddedig:
argraffiadau cyhoeddedig o lyfrau lle mae hawlfraint yn bodoli a gyhoeddir ar ffurf copi caled neu fformat electronig gan Gyhoeddwr sy'n Cymryd Rhan AC EITHRIO unrhyw Ddeunydd wedi'i Eithrio;

Manylion Deunydd Trwyddedig:
mewn perthynas â'r Deunydd Trwyddedig sy'n destun y Recordiad, enw'r cyhoeddwr, enw'r awdur, enw'r darlunydd (os oes un) a'r teitl;

Trwyddedai:
unrhyw Sefydliad Addysgol y talwyd y Ffi Drwydded briodol mewn perthynas ag ef;

Blwyddyn y Drwydded:
Oni chynghorir i'r gwrthwyneb, 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol neu 1 Awst mewn unrhyw flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf yn y flwyddyn ddilynol yn dibynnu ar y math o Sefydliad Addysgol;

Recordiadau:
recordiadau fideo (gan gynnwys ffrydiau fideo byw) neu recordiadau sain o Berson Awdurdodedig yn darllen yn uchel y cyfan neu unrhyw ran o'r Deunydd Trwyddedig yn unol â thelerau'r Drwydded hon;

Cyhoeddwr sy'n Cymryd Rhan:
Deiliad hawliau sydd wedi cadarnhau i'r CLA ei fod yn barod i ganiatáu, o dan y Drwydded, defnydd o'r cyhoeddiadau lle mae'n berchen ar neu'n rheoli'r hawlfraint ac nad yw wedi tynnu caniatâd o'r fath yn ôl fel y nodwyd ar wefan y CLA neu ddulliau electronig eraill a reolir gan y CLA;

Cyfradd Ragnodedig:
y gyfradd llog a ragnodir o bryd i'w gilydd yn unol â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998;

Dydd Chwarter:
1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref;

Deiliad Hawliau:
unrhyw berson sy'n berchen ar yr hawlfraint neu'n ei reoli mewn unrhyw Ddeunydd Trwyddedig;

Rhwydwaith Diogel:
rhwydwaith a weithredir neu a reolir gan y Trwyddedai (boed yn rhwydwaith annibynnol neu'n rhwydwaith rhithwir o fewn y rhyngrwyd) y gellir ei gyrchu gan Bersonau Awdurdodedig yn unig; a

Defnyddwyr:
pob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn sefydliad y Trwyddedai, eu rhieni, staff addysgu a staff eraill (boed dros dro neu'n barhaol) a llywodraethwyr y Trwyddedai ym mhob achos y caniateir iddynt gael mynediad i'r Rhwydwaith Diogel gan y Trwyddedai.

1.2 Gall pob cyfeiriad at yr unigol yn y Drwydded hon gynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb fel y mae'r cyd-destun yn gofyn, a bydd cyfeiriadau at rywedd yn cynnwys y ddau rywedd.

2. Caniatáu trwydded

2.1 Mae'r CLA yn rhoi i'r Trwyddedai ac, fel y bo'n briodol, Personau Awdurdodedig, yr hawl anghyfyngedig, yn amodol ar y telerau a'r amodau a nodir yn y cymalau canlynol, i:

2.1.1 wneud Recordiadau, neu ganiatáu i Recordiadau gael eu gwneud, yn amodol ar yr amodau a nodir yng nghymal 4;

2.1.2 sicrhau bod Recordiadau ar gael neu ganiatáu i Recordiadau fod ar gael o fewn Rhwydwaith Diogel y Trwyddedai yn unig ac i'w gweld gan y Defnyddwyr am Gyfnod y Drwydded, yn amodol ar yr amodau a nodir yng nghymal 5. Mae hyn yn cynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, mynegeio, chwilio, agor, a gwylio ffeil y Recordiadau fel sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer defnydd a gweithrediad arferol Rhwydwaith Diogel y Trwyddedai, ond nid unrhyw storfa y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan gymal 6; a

2.1.3 gwneud dim mwy na dau gopi o Recordiad yn gwbl at ddibenion (i) cael copi wrth gefn a (ii) galluogi'r Trwyddedai i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan gymal 10.2.

3. Talu a thymor y Drwydded

3.1 Bydd y Drwydded yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn a bydd yn parhau o flwyddyn i flwyddyn oni bai a hyd nes y terfynir y Drwydded yn unol â chymal 9.

3.2 Mae Ffi'r Drwydded, ynghyd â TAW arni, yn daladwy o fewn 30 diwrnod o ddyddiad anfoneb a yrrir gan y CLA.

3.3 Mae'r CLA yn cadw'r hawl i godi llog ar y Gyfradd Ragnodedig os telir yn hwyr unrhyw symiau sy'n ddyledus o dan y Drwydded hon.

4. Amodau sy'n berthnasol i greu Recordiadau gan Bersonau Awdurdodedig

4.1 Rhaid i'r Trwyddedai fod yn berchen ar, neu fod wedi tanysgrifio i, fersiwn wreiddiol o unrhyw Ddeunydd Trwyddedig y mae'n ei ddefnyddio i wneud Recordiad.

4.2 Bydd y Trwyddedai (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Berson Awdurdodedig) yn sicrhau:

4.2.1 bod unrhyw Weithiau Artistig sydd i'w gwneud yn weladwy i ddefnyddwyr mewn Recordiad:

i) ar eu ffurf wreiddiol, heb eu diwygio na'u haddasu; ac

ii) yn cael eu dangos o fewn y Deunydd Trwyddedig ac nid yn cael eu hanimeiddio, eu trin, eu dadosod na'u gwneud yn weladwy fel arall y tu allan i'r Deunydd Trwyddedig; a

4.2.3 Bydd Deunyddiau Trwyddedig:

i) yn cael eu darllen yn uchel air am air, gyda newidiadau a mân addasiadau gan y Person Awdurdodedig yn cael eu caniatáu at ddibenion addysgegol yn unig; a

ii) ddim yn cael eu cyflwyno ar Ffurf wedi'i Dramateiddio.

4.3 Rhaid i Bersonau Awdurdodedig ddarllen yn uchel neu arddangos fel arall yn y Recordiad Fanylion y Deunydd Trwyddedig cyn dechrau darllen yn uchel y cyfan neu ran o'r Deunydd Trwyddedig.

4.4 Bydd yr Hysbysiad Hawlfraint naill ai: (i) yn achos Recordiad fideo yn unig, yn cael ei arddangos ar y sgrin neu ar gerdyn neu (ii) yn achos unrhyw fath o Recordiad, yn cael ei ddarllen yn uchel gan y Person Awdurdodedig ar ddechrau'r Recordiad a chyn dechrau darllen y cyfan neu ran o'r Deunydd Trwyddedig.

5. Amodau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r Recordiadau gan Ddefnyddwyr

5.1 Ni chaniateir gwerthu neu waredu Recordiadau fel arall (p'un ai am bris ai peidio), na'u rhentu, na'u benthyg na'u lawrlwytho, na'u cyrchu fel arall mewn unrhyw ffordd gan unrhyw drydydd parti neu eu defnyddio at unrhyw ddibenion allanol neu eu hecsbloetio at ddibenion heblaw am ddibenion addysgol mewnol y Trwyddedai. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r gwaharddiad hwn yn cynnwys sicrhau bod y Recordiadau ar gael neu'n hygyrch ar unrhyw wefan neu raglen sy'n hygyrch i'r cyhoedd (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i YouTube, DailyMotion, Vimeo a llwyfannau tebyg), naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy ddolenni neu hyperddolenni i neu o unrhyw wefan neu raglen allanol neu drydydd parti.

5.2 Caniateir i ddefnyddwyr sy'n cyrchu'r Recordiadau fel y caniateir o dan gymal 2.1.2, wneud hynny o bell o'r tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig (ond trwy'r Rhwydwaith Diogel bob amser), ond ni chaniateir iddynt wneud copïau o'r Recordiadau na'u lawrlwytho at unrhyw ddiben.

5.3 Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod cofnod o'r holl Ddeunyddiau Trwyddedig a ddefnyddir gan Bersonau Awdurdodedig i wneud Recordiadau mewn unrhyw flwyddyn ysgol yn cael ei gynnal, a bod cofnod o'r fath ar gael i'w archwilio gan y CLA ar gais rhesymol y CLA.

5.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw beth yn y cymal 5 hwn yn atal y Trwyddedai rhag arfer, neu fynd y tu hwnt i, unrhyw hawliau neu eithriadau sydd gan y Trwyddedai o dan y gyfraith berthnasol.

6. Storio a dileu Recordiadau

6.1 Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod Recordiadau (ac unrhyw gopïau a ganiateir o dan gymal 2.1.3) yn cael eu dileu'n ddiogel o'r Rhwydwaith Diogel erbyn diwedd Cyfnod y Drwydded fan bellaf.

6.2 Ar ôl terfynu'r Drwydded hon, bydd y Trwyddedai (a bydd yn sicrhau bod Personau Awdurdodedig):

6.2.1 yn rhoi'r gorau ar unwaith i roi unrhyw Recordiadau ar y Rhwydwaith Diogel; ac

6.2.2 yn dileu'n barhaol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, o yriannau caled ei holl weinyddion canolog a lleol a rhai unrhyw isgontractwr trydydd parti bob Recordiad a chopïau o Recordiadau y gellir bod wedi'u storio yno.

6.3 Bydd y Trwyddedai ar unwaith: i) yn rhoi'r gorau i roi unrhyw Recordiadau ar y Rhwydwaith Diogel; ac ii) yn dileu'n barhaol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, o yriannau caled ei holl weinyddion canolog a lleol a rhai unrhyw isgontractwr trydydd parti bob Recordiad a chopïau o Recordiadau y gellir bod wedi'u storio yno yn dilyn hysbysiad gan y CLA bod y Deiliad Hawliau yn credu bod y Deunydd Trwyddedig sy'n destun Recordiad yn torri hawlfraint neu y gall fod yn ddifenwol, yn anweddus neu'n anghyfreithlon fel arall neu, yn achos i) uchod, mae'r Deiliad Hawliau neu'r cyhoeddwr perthnasol yn rhoi hysbysiad tynnu'n ôl cyfreithiol neu hysbysiad cywiro.

6.4 Os gofynnir am hynny yn ysgrifenedig gan y CLA, bydd y Trwyddedai yn ardystio ei fod wedi rhoi'r gorau i roi Recordiadau ar gael a'i fod wedi'u dileu yn unol â'r cymal 6 hwn.

7. Rhwymedigaethau eraill

7.1 Bydd y Trwyddedai yn hysbysu Personau Awdurdodedig am ddarpariaethau'r Drwydded, ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hwy.

7.2 Wrth arfer ei hawliau o dan y drwydded, bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl gyfreithiau cymwys o unrhyw fath gan gynnwys (heb gyfyngiad) hawliau moesol, diogelu data, cael unrhyw gydsyniadau a allai fod yn ofynnol gan unrhyw berson, busnes neu gwmni (ac eithrio'r cydsyniadau hynny sy'n ymwneud â hawlfraint a/neu hawl cronfa ddata yn unig), hawliau preifatrwydd neu hawliau personoliaeth o unrhyw fath, difenwad neu anweddustra.

7.3 Bydd gan y CLA yr hawl, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i'r Trwyddedai, i fynd i mewn i unrhyw un o adeiladau'r Trwyddedai i fonitro a gwirio bod y Trwyddedai yn cadw at ei rwymedigaethau o dan y Drwydded.

8. Indemniad

Yn y cymal hwn bydd "Hawliad Cymwys" yn golygu unrhyw gŵyn a wneir yn ysgrifenedig bod y Trwyddedai sy'n gweithredu o dan y Drwydded hon wedi torri hawlfraint a/neu hawl cronfa ddata mewn Deunydd Trwyddedig neu yn nhrefniadau argraffyddol yr argraffiad cyhoeddedig y mae'r Deunydd Trwyddedig wedi'i gynnwys ynddo.

8.1 Yn achos unrhyw Hawliad Cymwys, bydd y CLA yn indemnio'r Trwyddedai mewn perthynas â'r holl gostau cyfreithiol, treuliau ac iawndal rhesymol a ddyfernir yn erbyn neu a wynebir gan y Trwyddedai gan gynnwys unrhyw daliadau ex-gratia a wnaed gyda chydsyniad ysgrifenedig blaenorol y CLA, ar yr amod bod y Trwyddedai wedi cydymffurfio â thelerau'r Drwydded hon ac wedi rhoi hysbysiad i'r CLA am unrhyw Hawliad Cymwys o fewn deg (10) diwrnod gwaith neu, yn achos Ffurflen Hawlio, o fewn pum (5) diwrnod gwaith ar ôl i'r Trwyddedai ei derbyn.

8.2 Ni fydd yr indemniad a roddir gan y cymal hwn yn berthnasol:

8.2.1 os yw'r Trwyddedai yn torri unrhyw rai o delerau'r Drwydded yn sylweddol; neu

8.2.2 yn ystod unrhyw gyfnod, neu mewn perthynas â materion sy'n codi yn ystod cyfnod o'r fath, tra bo'r Drwydded yn cael ei hatal yn unol â chymal 12.

8.3 Bydd y CLA yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw drafodaethau ar gyfer setlo unrhyw Hawliad Cymwys ac os na ellir datrys y cyfryw Hawliad Cymwys drwy negodi, bydd y CLA yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gynnal amddiffyniad y cyfryw Hawliad Cymwys. Bydd y Trwyddedai yn cydweithredu â'r CLA yn hyn o beth lle bydd y CLA yn gofyn yn rhesymol iddynt wneud hynny.

8.4 Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na fydd unrhyw addefiad, na chynnig taliad neu indemniad yn cael ei wneud neu ei roi gan neu ar ei ran nac ar ran y CLA heb gydsyniad ysgrifenedig y CLA a bydd yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth a dderbynnir mewn cysylltiad â Hawliad Cymwys yn cael ei throsglwyddo'n brydlon i'r CLA.

8.5 Bydd y Trwyddedai yn indemnio'r CLA mewn perthynas â'r holl dreuliau, iawndal a chostau cyfreithiol rhesymol a ddyfernir yn erbyn neu a wynebir gan y CLA mewn perthynas ag unrhyw hawliad sy'n deillio yn sgil y Trwyddedai yn torri unrhyw rai o delerau'r Drwydded.

9. Terfynu a thramgwydd

9.1 Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Drwydded wrth roi o leiaf 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r llall o fwriad i derfynu ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y Dyddiad Cychwyn neu ddiwedd unrhyw flwyddyn arall wedi hynny.

9.2 Os yw'r Trwyddedai yn torri unrhyw un o ddarpariaethau'r Drwydded yn sylweddol ac yn parhau i dramgwyddo 14 diwrnod ar ôl derbyn rhybudd i unioni unrhyw dramgwydd o'r fath (lle mae'r tramgwydd yn adferadwy), yna gall y CLA, heb ragfarnu unrhyw un o'i hawliau eraill, naill ai derfynu'r Drwydded ar unwaith neu atal y Drwydded nes y bydd y CLA yn fodlon na fydd y cyfryw dramgwyddau yn digwydd eto.

9.3 Caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r Drwydded drwy rybudd ysgrifenedig i'r llall os a phan fo goruchwyliwr, gweinyddwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol neu unrhyw lyffetheiriwr arall yn cymryd meddiant o'r asedau, neu'n cael ei benodi i gymryd meddiant dros y cyfan neu unrhyw ran sylweddol o asesdau'r parti arall, neu os a phan fo'r parti arall yn ymrwymo i unrhyw drefniant neu gyfamod gyda'i gredydwyr neu er budd ei gredydwyr (gan gynnwys unrhyw drefniant gwirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986) neu os a phan y cyflwynir deiseb at ddiben gwneud gorchymyn gweinyddu neu ddirwyn y parti arall i ben nad yw'n cael ei rhyddhau o fewn 7 diwrnod i gyflwyno deiseb o'r fath neu os yw'r parti arall yn cael ei ddiddymu neu ei roi yn nwylo gweinyddwyr neu os yw'r parti arall yn cael ei ddiddymu neu os yw penderfyniad i ddirwyn y parti arall i ben yn cael ei basio (ac eithrio diddymiad gwirfoddol at ddiben ailadeiladu lle bydd holl hawliadau'r credydwyr yn cael eu rhyddhau'n llawn) neu os cyflwynir deiseb methdalu yn erbyn y parti arall nad yw'n cael ei rhyddhau o fewn 7 diwrnod i'w chyflwyno.

10. Casglu Data

10.1 Gall y CLA, ddim mwy nag unwaith ym mhob blwyddyn, ei gwneud yn ofynnol i'r Trwyddedai gymryd rhan mewn ymarfer casglu data i ddadansoddi defnydd y Trwyddedai o Ddeunydd Trwyddedig i wneud Recordiadau o dan y Drwydded a fydd yn cynorthwyo'r CLA i ddosbarthu Ffi'r Drwydded i awduron, artistiaid a chyhoeddwyr.

10.2 Gall yr ymarfer casglu data, heb gyfyngiad, fod ar ffurf arolwg neu gofnodi neu ymarfer adrodd ar-lein, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, gan gynnwys uwchlwytho un copi o unrhyw Recordiad i unrhyw lwyfan ar-lein fel sy'n ofynnol gan y CLA.

10.3 Os caiff ei ddewis, bydd y Trwyddedai yn cydweithredu â'r CLA i gynnal yr ymarfer casglu data ac yn ymrwymo i sicrhau bod ei Bersonau Awdurdodedig yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y cymal hwn.

10.4 Mae'r CLA yn ymrwymo i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i unrhyw ymarfer casglu data ac eithrio:

10.4.1 fel sy'n ofynnol gan lys neu awdurdod arall a chanddo awdurdodaeth gymwys; neu

10.4.2 ar ffurf gyfanredol lle na ellir adnabod y Trwyddedai yn uniongyrchol.

11. Cyffredinol

11.1 Bydd yr holl hysbysiadau a roddir o dan y Drwydded, oni nodir yn wahanol, yn ysgrifenedig ac yn cael eu hanfon drwy'r post dosbarth cyntaf, yn achos y Trwyddedai i'r cyfeiriad y mae'n ei hysbysu ar gyfer cyfathrebu o'r fath, ac yn achos y CLA i'w swyddfa gofrestredig fel y nodir ar ei wefan www.cla.co.uk (neu unrhyw gyfeiriad a hysbyswyd i'r Trwyddedai gan y CLA), neu drwy e-bost at: education.customers@cla.co.uk a bernir eu bod wedi cael eu cyflwyno ar yr ail ddiwrnod gwaith (a fydd yn eithrio penwythnosau a gwyliau cyhoeddus yn Lloegr) yn dilyn y dyddiad postio yn achos hysbysiadau drwy'r post a'r diwrnod gwaith nesaf yn dilyn dyddiad anfon e-bost.

11.2 Dim ond os cydnabyddir amrywiad o'r fath yn ysgrifenedig ar ran y CLA a'r Trwyddedai y gellir amrywio'r Drwydded.

11.3 Mae'r Drwydded yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni ellir ei haseinio na'i gwaredu fel arall yn rhannol nac yn gyfan gwbl.

11.4 Bydd y Drwydded yn cael ei llywodraethu gan gyfraith Lloegr ac mae'r partïon yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Lloegr o ran unrhyw hawliad neu fater sy'n codi mewn perthynas â'r Drwydded.

11.5 Nid yw'r partïon yn bwriadu y gellir gorfodi unrhyw un o delerau'r Drwydded yn unig yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Drwydded.